

“Yn y canol”

“Oherwydd lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol.” (adn. 20)

Beth am ddarllen Mathew 18:15–20 ac yna myfyrio

Rhodd nesaf ein Harglwydd i’w hystyried ydy ei addewidion. Yn yr addewid yr ydyn ni’n ei hystyried heddiw, mae’r Arglwydd yn ein sicrhau ei fod ef gyda ni pryd bynnag y byddwn yn cyfarfod yn ei enw. Mae’n bwysig sylwi nad ydy e’n dweud “*byddaf yno yn eu canol*” ond yn hytrach “... *yr wyf yno yn eu canol.*” Lle bynnag mae dau neu dri crediniwr yn cyfarfod yn ei enw, yna mae Iesu yno – yn awtomatig. Does dim angen iddo gael gwahoddiad – ond mae angen ei groesawu.

Roedd hyn yn chwyldroadol mewn cyfnod pan oedd y Phariseaid yn chwilio am rywle gwahanol i’r Deml fel lle i gyfarfod â Duw. Yn ddiweddarach, maen nhw’n dweud: “Lle mae dau neu dri yn dod ynghyd o amgylch Tora Duw, yno mae gogoniant shekinah Duw.” Yn drawiadol, mae Iesu’n rhoi ei enw yn lle cyfraith Duw. Os ydyn ni’n cyfarfod ar sail y datguddiad awdurdodedig o Dduw a ddaeth yn Iesu, yna gallwn fod yn sicr o’i bresenoldeb fel yr Arglwydd atgyfodedig!

Ac mae yna fwy. Mae “yr wyf yno” yn ddigon gwych. Mae “yr wyf yno yn eu canol” yn awgrymu’n gywir mai ef yw canolbwynt bywyd ei ddisgyblion. Dywedodd Graham Scroggie, yr esboniwr enwog ar y Beibl: “Gall rhosyn fod yng nghanol gardd, ond mae ei bersawr ymhlith popeth; gall lamp fod yng nghanol ystafell ond mae ei goleuni ym mhobman yn yr ystafell!” Felly hefyd mae presenoldeb Crist yn amgáu dau ffrind neu gwpl tra byddan nhw’n siarad, neu’n cerdded, neu’n gweddïo gyda’i gilydd yn ei enw. Yng ngeiriau Ian Macpherson: “Mae Crist ym mhobman yn ein plith, yn trwytho’r awyrgylch fel persawr hyfryd ... nid yn y canol (yn unig) – ond yn ein mysg.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 31:1–8; 1 Bren. 8:54–61; Hag. 1:12–15; Actau 18:9–11

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd Solomon yn ei fendithio, a sut oedd yn gweddïo?
2. Beth oedd yr addewid a dderbyniodd Paul?

Gweddï

Arglwydd Iesu Grist, diolch i ti am yr addewid wych a boddhaol hon. Helpa fi, nid yn unig i’w chofio ond hefyd i’w dathlu bob tro y byddaf yn cyfarfod â’m brodyr a’m chwiorydd, boed yn ddau neu’n ddwy, neu’n gant neu ddau. Amen.